Safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes yng Nghymru

Annwyl Gydweithiwr

Mae'n bleser gan LLUK anfon copïau i chi o'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon yn y sector dysgu gydol oes yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2007 rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru dasg i Lifelong Learning UK, i adolygu'r Safonau Addysgu a Chefnogi Dysgu ar gyfer Cymru a Lloegr (a ddatblygwyd yn wreiddiol gan y Sefydliad Hyfforddiant Cenedlaethol Addysg Bellach). Er yn ystyriol o'r angen am drosglwyddadwyedd trawsffiniol, mae'r adolygiad ar gyfer Cymru wedi rhoi'r cyfle i ddatblygu safonau ar gyfer athrawon er mwyn adlewyrchu natur unigryw y cyd-destun yng Nghymru.

Mae'r safonau proffesiynol terfynol ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes yn disgrifio, yn gyffredinol, y sgiliau, y wybodaeth a'r rhinweddau sy'n ofynnol gan y rheini sy'n ymgymryd â'r ystod eang o swyddogaethau addysgu a hyfforddi o fewn y sector gyda dysgwyr a chyflogwyr. Mae'r safonau'n:

- rhydd o gyd-destun a rhydd o lefelau, er mwyn cynrychioli pob maes ac athrawon newydd, athrawon profiadol ac addysgwyr athrawon
- cynrychioli'r cylch addysgu a dysgu, y mae pob athro neu athrawes yn ymgysylltu ag ef: asesiad cychwynnol, cynllunio a pharatoi, addysgu, asesu, gwerthuso a gwella safon drwy ymateb i werthusiad.

Mewn digwyddiadau ymgynghori a holiaduron ar y we gwelwyd cefnogaeth gref i ymagwedd gyffredinol y safonau tra'n pwysleisio'r angen iddynt adlewyrchu anghenion arbennig y sector yng Nghymru er mwyn cefnogi gweledigaeth *Y Wlad sy'n Dysgu*. Aed i'r afael â hyn drwy gynnwys safonau yn ymwneud yn benodol â dwyieithrwydd, amrywiaeth diwylliannol a datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, ac felly'n galluogi'r safonau i fodloni anghenion Cymru a chaniatáu cyswllt â'r safonau ar gyfer Lloegr. Drwy wneud hyn gellir mynd i'r afael â materion trawsffiniol a throsglwyddiadwyedd, a chaiff symudedd marchnad lafur ei ddiogelu.

Mae datblygiad y safonau yn cynrychioli cam cyntaf hollbwysig mewn creu fframwaith o gymwysterau newydd ar gyfer athrawon yn y system addysg bellach yng Nghymru.

Yn gywir



David Hunter
CEO

Michelle Creed (Sayers yn flaenorol)
Cyfarwyddwr, Cymru